Diogelu: Cwestiynau Cyffredin – Agor y Llyfr (Cymru a Lloegr)

1. **Pam fod angen i mi roi copi o Bolisi Diogelu AyLl a Chod Ymddygiad Diogelu i Arweinydd fy Eglwys a Swyddog Diogelu Eglwys / Enwad?**

   Mae gan Arweinydd eich Eglwys gyfrifoldeb am recriwtio pobl sy'n gwirfoddoli fel storïwyr AyLl. I sicrhau eu bod yn addas a'u hadnabod ganddynt fel rhan o'r teulu Cristnogol. Nhw sy'n gyfrifol am sicrhau fod gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi ei wneud drwy'r eglwys ar gyfer gwirfoddolwyr Agor y Llyfr. Mae angen i Swyddogion Diogelu'r Eglwys/Enwad wybod am y weithdrefn i'w dilyn a'r datganiadau mae angen iddynt roi gwybod amdanynt i Agor y Llyfr/Cymdeithas y Beibl pe bai storïwr sy'n wirfoddolwr yn cael ei riportio iddynt fel un sy'n ymddwyn yn amhriodol. Mae hefyd angen iddynt wybod y weithdrefn rhoi gwybod pe bai digwyddiad yn cymryd lle y tu allan i oriau ysgol sy'n ymwneud â phlentyn. I dimau eciwmenaidd mae gofyn iddynt wybod pwy yw eu swyddogion Diogelu cyfatebol a sut i gysylltu â hwy pe bai digwyddiad yn cael ei riportio am wirfoddolwr sy'n storïwr o enwad arall.

2. **Mae'r polisi Diogelu yn dweud na allwn ni fynd i ysgol heb wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Buom eisoes yn Agor y Llyfr mewn ysgol heb gael ein gwirio ac nid ydym am i hyn ddod i ben.**

   Siaradwch â swyddog Diogelu eich Eglwys/ Enwad i drefnu gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael ei wneud cyn gynted â phosibl.

3. **Alla i ddechrau mynd i ysgol cyn bod fy ngwiriad o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi ei gwblhau?**

   Mae'r polisi yn datgan y dylai pob storïwr sy'n wirfoddolwr fod wedi derbyn datgeliad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd heb wiriad o'r rhestr gwahardd drwy eu heglwys **cyn** ymweld ag unrhyw ysgol yn rhinwedd eu swydd fel Storïwr.

6 Mai 2016

4. **Mae fy ysgol yn mynnu ein bod i gyd wedi ein gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gan yr ysgol – beth ddylem ei wneud?**

   Egluro i'r pennaeth eich bod yn dod i'r ysgol fel cynrychiolwyr eglwys, mae angen i'r eglwys ymchwilio'ch cefndir a sicrhau fod storïwyr yn addas ar gyfer y rôl ac wedi eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gall aelodau'r tîm nawr fod yn berchen ar eu gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a gallant eu rhannu gydag unrhyw un sy'n gofyn am ei weld, ar yr amod eu bod yn cofrestru i wneud hynny. Nodwch fod cyfyngiad amser i gofrestru yn dilyn derbyn ffurflen cadarnhau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a thâl bach.

5. **Mae'r Pennaeth eisiau cadw copïau o Ddatgeliad y DBS yn yr ysgol. A yw hyn yn angenrheidiol?**
   Mae'n fater i bob storïwr i benderfynu os ydynt eisiau caniatáu eu gwybodaeth bersonol i fynd i'r ysgol. Os yw Storïwr yn cytuno â hyn ac os oes gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ddigwyddiadau eraill (heb gysylltiad) ar eu cofnod, ni ddylai hyn effeithio arnynt i fynd i mewn, ond yr ysgol ei hun fyddai'n penderfynu. (Os yw'r ysgol yn gwrthod, efallai y byddech yn hoffi cynnig i Swyddog Diogelu'r Eglwys ymweld â'r ysgol i amddiffyn cymeriad yr unigolyn dros sgwrs fach gyfeillgar.) Os yw storïwyr yn gwrthod caniatáu i gopïau o'u tystysgrif fynd i'r ysgol, yr ysgol wedyn fydd yn penderfynu os ydynt eisiau i'r Storïwyr gael mynediad.

6. **Rydw i'n perthyn i dîm Eciwmenaidd – i bwy ddylwn i roi gwybod am ymddygiad anaddas gan storïwr sy'n wirfoddolwr?**

   Rhowch wybod a gofynnwch am gyngor gan eich Swyddog Diogelu Eglwys/ Enwad. Mae'n bwysig bod pob Storïwr sy'n wirfoddolwr yn gwybod pwy yw ei Swyddog Diogelu Eglwys/Enwad. Dylai'r wybodaeth hon gael ei dangos ar hysbysfyrddau'r eglwys ond os oes rhywun sydd ddim yn siŵr o'r wybodaeth dylai ofyn i Arweinydd yr Eglwys.

7. **Rydw i'n sylwi fod un plentyn â llawer o gleisiau ac mae'n ymddangos yn ofnus pan fyddwn yn yr ysgol yn paratoi fel tîm am gynulliad/addoliad AyLl gyda'n gilydd. I bwy y dylwn riportio fy mhryder?**

   Dylech wybod beth yw polisi diogelu'r ysgol a phwy yw'r Arweinydd Diogelu Dynodedig (DSL) yn Lloegr ac Uwch Swyddog Dynodedig (DSP) yng Nghymru i roi gwybod am eich pryderon iddo/iddi. Mae'n bwysig fod pob Storïwr sy'n wirfoddolwr yn gwybod pwy yw DSL neu DSP yr ysgol. Gall rhai ysgolion ofyn i dimau AyLl fynychu sesiwn hyfforddi byr i wirfoddolwyr mewn ysgol ar y polisi a gweithdrefnau diogelu.

8. **Gan amlaf byddwn yn casglu plant o'r ystafell ddosbarth i helpu gyda chynulliadau AyLl, a allwn barhau i wneud hyn?**

   Cytunwch gyda'r Pennaeth ar y dull gorau i'r plant fod yn rhan o'r cynulliad/ addoli ar y cyd, er enghraifft: allan nhw ddod i'r man cyfarfod bum munud yn gynnar? Os yw storïwr sy'n wirfoddolwr yn casglu plant, yna mae'n rhaid i ddau wirfoddolwr o storïwyr fynd gyda'i gilydd. Cofiwch ni ddylech byth fod ar eich pen eich hun gyda phlant.

9. **Beth ddylwn i ei wneud os ydw i'n canfod mai fi yw'r unig unigolyn sydd ar gael i gynnal cynulliad AyLl?**

   Trafod y sefyllfa gyda'r Pennaeth neu'r Cyd-gysylltydd Addysg Grefyddol a phenderfynu beth fyddai'r dewis gorau o gofio na allwch gael eich gadael ar eich pen eich hun gyda phlant. Mae hyn yn cynnwys symud o gwmpas adeiladau'r ysgol.

10. **Mae plentyn yn gofyn i chi ei gymryd i'r tŷ bach – beth ydych chi i'w wneud?**

    Sicrhau fod pawb yn y tîm yn gwybod beth yw polisi'r ysgol ynglŷn â chymryd plant i'r tŷ bach a dilyn eu gweithdrefnau.

11. **Mae myfyriwr 16 oed am fod yn rhan o'n tîm Agor y Llyfr i bwrpas y cwrs mae'n ei astudio. A allan nhw wneud hyn?**

    Gellir gwneud gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) erbyn hyn ar gyfer pobl ifanc 16 oed neu hŷn. Rhaid i arweinydd y tîm ofyn caniatâd y Pennaeth a Swyddog Diogelu Eglwys/ Enwad i'r unigolyn ifanc gael ymuno â'r tîm yn yr ysgol. Rhaid i arweinydd y tîm gymryd cyfrifoldeb drostynt a bod gyda'r unigolyn ifanc yn bersonol bob amser yn yr ysgol.

12. **Ar hyn o bryd mae gen i dystysgrif y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) – ydy hyn yn golygu fod gen i warant o hyd?**

    Nid oes gan dystysgrifau CRB gyfnod penodedig dilys ond bydd eich eglwys yn eu hadolygu neu eu hadnewyddu yn rheolaidd. Mae rhai enwadau yn adolygu neu adnewyddu bob tair blynedd, eraill bob pum mlynedd. Gwiriwch gyda'ch enwad i weld beth yw eu cyfnod adnewyddu. Ar yr adeg honno bydd gofyn i chi gael gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) manylach heb wiriad o'r rhestr gwahardd.

6 Mai 2016

13. Mae gen i dystysgrif CRB. Oes angen i mi wneud cais am wiriad?

Nac oes, does dim ond angen i chi wneud cais am wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os oes unrhyw wybodaeth ar eich gwiriad CRB wedi newid e.e. cyfeiriad neu enw. Os bydd hyn wedi digwydd bydd yn rhaid i chi ofyn i'ch Swyddog Diogelu Eglwys/Enwad am wyriad DBS gael ei wneud ar eich rhan.

14. Mae gen i eisoes dystysgrif CRB/DBS drwy fy eglwys am fy mod yn gweithio gyda phlant. Oes angen un arall arnaf yn benodol ar gyfer Agor y Llyfr?

Nac oes, nid oes angen un arall arnoch. Yn wir, bydd y disgrifiad o Weithiwr Plant yn yr adran "Safle y ceisiwyd amdano" ar y ffurflen gais yn eich gwarantu ar gyfer pob achlysur y byddwch yn gweithio gyda phlant drwy'r eglwys yn ogystal ag ymweliadau Agor y Llyfr â'r ysgol.

15. Mae fy eglwys/ enwad/ esgobaeth yn dweud nad oes angen gwiriad DBS arna i. Beth wna i?

Anfonwyd gwybodaeth ar bolisi Diogelu AyLl i bob un o'r timau diogelu enwadol cenedlaethol. Mae'r polisi a chod ymddygiad i gyd ar wefan AyLl. Os oes ganddynt unrhyw ymholiad, gallant gysylltu â Chymdeithas y Beibl am eglurhad. Cafodd Cymdeithas y Beibl gyngor cyfreithiol ac fe wnaeth ymgynghori â thimau diogelu'r enwadau wrth baratoi'r polisi hwn oedd yn ei gwneud yn glir fod angen gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer storïwyr gwirfoddol AyLl.

16. Beth ddylem ei wneud os yw gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn dod yn ôl heb fod yn glir?

Bydd eich tîm diogelu enwadol cenedlaethol yn gallu eich cynghori ar fanylion y gollfarn, ac yna ynghyd â Swyddog Diogelu'r Eglwys/ Enwad byddant yn penderfynu os yw unigolyn yn addas ar gyfer rôl storïwr gwirfoddol. Dylid cadw cofnod ganddynt o sut y daethant i'r penderfyniad.